

**MA ADDYSG  
TEMPLED MODIWL CYMRU GYFAN**

|                                |                                                                                                                                                                                                                |                                               |                                                        |
|--------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|--------------------------------------------------------|
| <b>Cyfadrann/Ysgol / Coleg</b> | Pob sefydliad:<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Bangor<br>Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>Prifysgol Abertawe<br>Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br>Prifysgol De Cymru<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |                                               |                                                        |
| <b>Dyddiad Cymeradwyo</b>      | 24 Ebrill 2020                                                                                                                                                                                                 |                                               |                                                        |
| <b>Teitl y Modiwl</b>          | Traethawd Hir                                                                                                                                                                                                  | <b>Cod y Modiwl</b>                           | I'w gadarnhau                                          |
| <b>Lefel</b>                   | Choose an item.<br>7                                                                                                                                                                                           | <b>Credydau</b>                               | Choose an item.<br>60                                  |
| <b>Math o Fodiwl</b>           | Choose an item.<br>Craidd                                                                                                                                                                                      | <b>Dull Cyflawni</b>                          | Choose an item.<br>Cyfunol                             |
| <b>Oriau Cyswllt Ffurfiol</b>  | 10                                                                                                                                                                                                             | <b>Cyfanswm yr Oriau Tybiannol</b>            | Choose an item.<br>600                                 |
| <b>Oriau Dysgu Lleoliadau</b>  | 0                                                                                                                                                                                                              | <b>Oriau Dysgu Annibynnol</b>                 | 590                                                    |
| <b>Lleoliad Darparu</b>        | Pob sefydliad                                                                                                                                                                                                  | <b>Dull Gwerthuso (ar gyfer Llywodraethu)</b> | Choose an item.<br>PTES<br>Monitro Rhaglen Sefydliadol |
| <b>Canolfan Gostau</b>         | Pob sefydliad                                                                                                                                                                                                  |                                               |                                                        |

**Crynodeb o'r Modiwl i'w argraffu yn y catalog** - rhowch amlinelliad byr o'r modiwl.

Cynlluniwyd y modiwl traethawd hir i roi'r sgiliau i'r myfyrwyr ymgymryd â darn o waith ymchwil neu ymholi ar raddfa fach sy'n berthnasol i'w hymarfer addysgol. Bydd y modiwl yn cefnogi myfyrwyr i nodi maes o'u hymarfer sy'n briodol ar gyfer darn o waith ymchwil neu ymholi ar raddfa fach, llunio cwestiynau ymchwil priodol, dewis dulliau casglu data priodol, casglu data a chynnal dadansoddiad beirniadol o'r data. Bydd y modiwl hwn yn paratoi myfyrwyr ar gyfer ysgrifennu eu canfyddiadau a'u cyflwyno mewn fformatau amrywiol. Mae'r modiwl hwn yn ategu'r modiwl Sgiliau Ymchwilio ac Ymholi Uwch sy'n rhagofyniad ar gyfer ymgymryd â'r traethawd hir.

**Nodiadau i'w hargraffu yn y catalog** - nodwch a yw'r modiwl yn fodiwl craidd, gorfodol neu ddewisol ar gyfer rhaglen. Amlinellwch y gynulleidfa darged ar gyfer y modiwl hwn, ac ati.

Mae hwn yn fodiwl craidd ar gyfer pob myfyriwr sy'n astudio ar y rhaglen MA Addysg Genedlaethol. Er mwyn astudio'r modiwl hwn mae'n ofynnol i fyfyrwyr fod â 120 o gredydau Lefel 7, ac wedi pasio'r modiwl Sgiliau Ymchwilio ac Ymholi Uwch. Y gynulleidfa darged ar gyfer y modiwl hwn yw gweithwyr proffesiynol ym maes addysg.

|                                                                                                                                          |                                  |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|
| <b>A oes elfen lleoliad i'r modiwl? Rhowch fanylion.</b>                                                                                 | Choose an item.<br>Nac oes       |
| <b>A gaiff y modiwl ei gyflwyno mewn cydweithrediad â sefydliad arall? Rhowch fanylion.</b>                                              | Choose an item.<br>Pob sefydliad |
| <b>Pa ganran o'r modiwl gaiff ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? Amlinellwch enghreifftiau, e.e. mentora neu diwtora personol, ac ati</b> | 100%                             |

**Nodau'r Modiwl** – rhowch ychydig o nodau byr i amlinellu bwriad y modiwl, e.e. Nod yw modiwl hwn yw paratoi athrawon sy'n ymarfer ar gyfer eu swyddogaeth yn hwyluso dysgu i fyfyrwyr sy'n astudio cymhwyster ôl-raddedig.

Nod y modiwl hwn yw cefnogi myfyrwyr:

1. I gynllunio a chynnal gwaith ymchwil/ymholiad ar raddfa fach sy'n berthnasol i'w hymarfer addysgol.
2. I ymgysylltu'n feirniadol ac yn foesebol â phrosesau cynllunio ymchwil a chasglu data.
3. I arfarnu'n feirniadol ddulliau ymchwilio ac ymholi cyfoes yn y gwyddorau cymdeithasol.
4. I ymgymryd â darn o waith ymchwil empirig yn annibynnol.
5. I gyflwyno eu hymchwil mewn gwahanol ffurfiau ac i wahanol gynulleidfaoedd.
6. I fireinio eu sgiliau ymchwilio fel y gallant ymchwilio'n annibynnol ac arwain eraill drwy broses ymholi/ymchwilio.

#### **Deilliannau Dysgu Bwriedig y Modiwl (dylech gynnwys 4-7 deiliant ar gyfer y modiwl)**

Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyrwyr allu:

1. Nodi mater neu gwestiwn sy'n addas ar gyfer darn o waith ymchwil/ymholiad ar raddfa fach a llunio cwestiwn/cwestiynau ymchwil addas.
2. Cynnal adolygiad beirniadol o'r llenyddiaeth sy'n berthnasol i bwyslais yr ymchwil/ymholiad a ddewiswyd.
3. Mynegi dull ymchwilio/ymholi priodol yn ei gynllun astudio.
4. Cynllunio ymchwil yn briodol fel ei fod yn cyd-fynd â chanllawiau moesegol BERA (2018).
5. Cynllunio, cyflawni a chyflwyno darn o waith ymchwil/ymholiad ar raddfa fach.
6. Myfyrio'n feirniadol ar ei brofiad o gynnal prosiect ymchwil/ymholiad.
7. Rhannu ei ymchwil mewn ffordd sy'n berthnasol ac yn ddealladwy i gynulleidfaoedd amrywiol.

#### **Deilliannau Rhaglenni Perthnasol**

- G1. Gwybodaeth fanwl, systematig ac uwch am gymhlethdod a natur amlweddol addysg, yn eu cyd-destun eu hunain a thu hwnt.
- G2. Gwerthusiad beirniadol o safbwyntiau polisi cyfredol, damcaniaethol ac ymarferol ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.
- G3. Myfyrdod beirniadol a dehongliad, crynhoad a chymhwysiad gwybodaeth ac ymchwil yn eu cyd-destunau proffesiynol eu hunain.
- G4. Gwerthusiad a chrynhoad cynhwysfawr a beirniadol o lenyddiaeth berthnasol.
- G5. Gwerthusiad beirniadol o ddulliau methodolegol allweddol sy'n berthnasol i ymholi proffesiynol.
- G6. Gwreiddioldeb wrth ddylunio, cymhwyso a gwerthuso dulliau priodol o ymholi proffesiynol a myfyrio'n feirniadol ar y rhain fel cyfrwng ar gyfer dysgu proffesiynol.
- G7. Cywain corff sylweddol o wybodaeth mewn modd systematig yn eu maes ymarfer proffesiynol.
- G8. Y gallu i gyfathrebu'n gywir ac yn eglur ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- S1. Cymhwyso ymgysylltiad â theori a thystiolaeth i ddatblygu safbwyntiau personol a phroffesiynol newydd o'u harfer proffesiynol eu hunain.
- S2. Dod i gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â materion cymhleth mewn addysg yn gyffredinol, ac yn eu maes ymarfer proffesiynol yn benodol.
- S5. Gwerthuso llenyddiaeth a thystiolaeth yn feirniadol i ddatblygu eu sgiliau ymholi eu hunain.
- S6. Cynllunio ymholiad proffesiynol yn effeithiol ac yn foesebol.
- S7. Cynnal prosiect ymholiad estynedig mewn cysylltiad â'u harfer eu hunain.
- S8. Datblygu arddulliau ysgrifennu clir a phriodol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, sydd ar gael i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

#### **Sgiliau Trosglwyddadwy/Cyflogadwyedd/Graddedigion**

*I = wedi'u cynnwys yng nghynnwys y modiwl; A = wedi'u cynnwys yn asesiad y modiwl; Amherthnasol*

Dyfernir graddau Meistr i fyfyrwyr sydd wedi dangos:

1. Dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu ddirnadaeth newydd, gyda llawer o hyn yn waith blaengar yn eu disgyblaeth academiaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol, neu'n cael ei lywio gan hynny.

**Caiff myfyrwyr eu hasesu am eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth feirniadol yn ymwneud â phwnc y modiwl. Bydd disgwyl i bob myfyriwr gysylltu hyn â'u harfer eu hunain.**

2. Dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n berthnasol i'w hymchwil eu hunain neu i ysgolheictod uwch, a;
3. Gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o sut y defnyddir technegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth.

**Caiff myfyrwyr eu cyflwyno i'r llenyddiaeth graidd, y dystiolaeth a'r technegau ymholi mewn cysylltiad â phwnc y modiwl, a disgwylir iddynt ymgysylltu'n feirniadol â nhw. Mae hyn er mwyn dangos y defnydd priodol o ymchwil ac ysgolheictod yn eu harfer eu hunain a'u gwerthusiad beirniadol o hynny, er mwyn ennyn dealltwriaeth ddyfnach o'r pwnc fel y mae'n berthnasol i weithwyr proffesiynol.**

4. Dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr:
  - i werthuso'n feirniadol ymchwil ac ysgolheictod uwch presennol yn y ddisgyblaeth
  - i werthuso dulliau, datblygu beirniadaethau ohonynt, a phan fo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd.

**Bydd myfyrwyr yn cael cymorth i feithrin sgiliau dadansoddi beirniadol ac i ddatblygu gwerthfawrogiad beirniadol o'r dystiolaeth y maen wedi ymwneud â hi er mwyn llunio cysyniadau o'r wybodaeth yn y pwnc hwn a chymhwyso hynny i'w harfer eu hunain, a datblygu eu damcaniaethau gweithredu eu hunain mewn cysylltiad â'r pwnc.**

Fel arfer, bydd y sawl sydd â'r cymhwyster yn gallu:

1. Ymdrin â materion cymhleth mewn modd systematig a chreadigol, llunio barn gadarn heb ddata cyflawn, a chyfleu eu casgliadau'n glir i gynulleidfaoedd arbenigol a rhai nad ydynt yn arbenigol.

**Anogir y myfyrwyr i ddeall nad oes 'atebion cywir' yn eu disgyblaeth a bod arfer proffesiynol effeithiol yn golygu gwneud penderfyniadau doeth ar eu liwt eu hunain, defnyddio tystiolaeth i wneud dewisiadau a'u gwerthuso drwy fyfyrion arnynt. Yn ystod eu hymarfer, anogir y myfyrwyr i sicrhau bod eu defnydd o'u sylfaen wybodaeth gynyddol yn eu galluogi nid yn unig i ddatblygu fel gweithwyr proffesiynol, ond hefyd i weithio gyda chydweithwyr, dysgwyr, rhieni a gofawyr, gan sicrhau y gallant gyfathrebu'n effeithiol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.**

2. Arddangos hunangymhelliant a gwreiddioldeb wrth ymdrin â phroblemau a'u datrys a gweithredu'n annibynnol wrth gynllunio a chyflawni tasgau ar lefel broffesiynol neu gyfatebol.

**Mae'r holl asesiadau wedi'u cynllunio i'w gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos sut y gallant ddatrys problemau o ran eu hymarfer, a sut y gallant ddefnyddio tystiolaeth, cynllunio camau gweithredu a myfyrion i ddatrys problemau yn annibynnol a thrwy gydweithio â chymheiriaid.**

3. Parhau i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a datblygu sgiliau newydd i safon uchel.

**Bwriad holl gynnwys y modiwl yw herio myfyrwyr i ailystyried yr hyn y maent yn credu eu bod yn ei wybod, mabwysiadu meddylfryd beirniadol a bod yn barod i addasu'r hyn y maent yn ei wneud yng ngoleuni'r wybodaeth a'r dealltwriaeth newydd y maent yn eu cael yn ystod y modiwl.**

4. Bydd gan y rhai sydd â'r cymhwyster y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am y canlynol:
  - cymhelliant a chyfrifoldeb personol
  - y gallu i wneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth ac anrhagweladwy
  - y gallu sydd ei angen i ddysgu'n annibynnol

**Drwy gydol y modiwl, caiff myfyrwyr eu hannog:**

- a. I ddod i gasgliadau ynghylch eu harfer eu hunain er mwyn iddynt fod yn fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol a hebddi.
- b. I fyfyrion fel y gallant gymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wnânt

## Maes Llafur – Cynnwys Dangosol – rhowch wybodaeth am y cwricwlwm

- Problemeiddio ymarfer a defnyddio tystiolaeth i archwilio maes ymarfer proffesiynol
- Ymgysylltu â llenyddiaeth ryngwladol berthnasol ac ysgrifennu adolygiad o'r llenyddiaeth
- Gofynion a disgwyliadau moesegol ymchwil ac ymholiad addysgol.
- Methodolegau a dulliau ymchwilio a dulliau o gasglu data sy'n berthnasol i ymarfer addysgol.
- Gweithdrefnau casglu data a phrosesau dadansoddi data (dulliau ansoddol a meintiol)
- Symleiddio data, dehongli data a chynrychioli data.
- Cyflwyno a rhannu ymchwil ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

## Strategaethau/Dulliau Cyflwyno Dysgu ac Addysgu

| Dull                                               | Rhesymeg                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Math o Gyswllt<br>(astudiaeth/lleoliad<br>annibynnol wedi'i<br>drefnu/dan arweiniad) | Cyfanswm yr oriau |
|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Goruchwylio (wyneb yn<br>wyneb / ar-lein)          | Anogir myfyrwyr mewn<br>sesiynau grŵp a<br>thiworialau cydamserol<br>llai, wyneb yn wyneb neu<br>ar-lein i holi ymhellach y<br>deunydd yr ymdriniwyd<br>ag ef er mwyn<br>cymhwyso'r hyn a<br>ddysgwyd i'w cyd-destun<br>proffesiynol eu hunain a<br>chymharu hyn â phrofiad<br>eu cymheiriaid. | Wedi'i drefnu                                                                        | 10 awr            |
| Tasgau Hunangyfeiriedig<br>ac Amser Astudio Unigol | Bydd myfyrwyr yn<br>treulio'r rhan fwyaf o'r<br>amser ar y modiwl hwn<br>yn astudio'n unigol sy'n<br>cynnwys cynllunio,<br>cyflawni ac ysgrifennu eu<br>hymchwil.                                                                                                                              | Annibynnol                                                                           | 590 awr           |

## Darllen Gofynnol

Lune, H., & Berg, B. L. (2016). *Qualitative research methods for the social sciences*. Pearson Higher Ed.

Thomas, G. (2017) *How to do your research project*. 3rd ed. London: SAGE Publications Ltd.

## Darllen Pellach a Argymhellir

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2018) *Research methods in education*. 8<sup>th</sup> ed. London: Routledge.

Danermark, B., Ekström, M., & Karlsson, J. C. (2019). *Explaining society: Critical realism in the social sciences*. Routledge.

Kumar, R. (2019), *Research Methodology*. 5<sup>th</sup> ed. London: SAGE Publications Ltd.

Silverman, D. (Ed.). (2016). *Qualitative research*. London SAGE Publications

## Rhowch fanylion dulliau dysgu ac addysgu cynhwysol/unrhyw ofynion arbenigol.

Mae pob sefydliad yn gweithredu polisi o ddysgu, addysgu ac asesu cynhwysol i sicrhau cyfle cyfartal i bob myfyriwr wireddu ei botensial addysgol. Bydd timau'r cwrs wedi ystyried ffyrdd o gynllunio er mwyn osgoi elfennau anfanteisiol posibl yn y cyrsiau yn ystod y broses gynllunio, serch hynny gallai anghenion penodol barhau, a chânt eu cofnodi yng Nghynlluniau Cymorth Unigol y myfyrwyr (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn y sefydliad).

Mae'r trefniadau i sicrhau dulliau dysgu ac addysgu cynhwysol yn cynnwys:

- Sicrhau bod deunyddiau ar gael mewn amrywiaeth o gyfryngau (e.e. ysgrifenedig, clywedol, copi papur ac yn electronig).
- Mynediad at fanciau adnoddau drwy Rith-amgylcheddau Dysgu (VLE) a ‘Hwb’ sefydliadol.
- Amrywiaeth o ddewisiadau mynediad ar gyfer cysylltu â staff y cwrs, wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Mynediad at wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys cyngor ar sgiliau astudio, cyngor meddygol, cymorth cwnsela a llesiant.
- Cynllunio addysgu wyneb yn wyneb er mwyn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cyfrannu'n weithredol at y sesiynau.
- Defnyddio manau addysgu a lleoliadau digwyddiadau sy'n briodol ar gyfer anghenion pob myfyriwr.
- Cyfeirio myfyrwyr yn glir i ofynion deddfwriaethol a phroffesiynol cyfredol wrth ymgysylltu â chymheiriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, ac wrth gyfrannu at sesiynau addysgu, cynllunio ar gyfer ymarfer a chyflwyno asesiadau.
- Dewis o gyfryngau ar gyfer cyflwyno asesiadau.

Bydd angen mynediad ar fyfyrwyr at y rhyngwrwd i gefnogi eu hastudiaethau; ar gyfer myfyrwyr nad oes ganddynt fand eang gartref, mae amrywiaeth o fannau mynediad ar gael ar gampws pob sefydliad.

|                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------------------|---------|--------------------------------|
| Asesu ac Adborth                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| Dull Cymedroli i'w ddefnyddio                                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  | Cymedroli trwy samplu'r garfan. |         |                                |
|                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                    | Dulliau Asesu    |                                 |         |                                |
| Cod a Dull Asesu                                                                                                                                                                                                                                     | Deilliannau Dysgu i'w bodloni                                                                                                                                                                                                                      | Hyd y Dull Asesu | Pwysoliad yr Asesiad (%)        | Trothwy | Brasamcan o'r Dyddiad Cyflwyno |
| WRIT1<br>Traethawd hir ysgrifenedig.                                                                                                                                                                                                                 | Pob un                                                                                                                                                                                                                                             | 15,000 o eiriau  | 100                             | 50%     | Canol mis Medi                 |
| Rhesymeg dros Asesu                                                                                                                                                                                                                                  |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| Mae asesiadau wedi'u cynllunio i sicrhau darpariaeth a phrofiad cydradd i bob myfyriwr. Bydd pob myfyriwr yn elwa ar adborth ffurfiannol drwy gydol y modiwl a fydd yn bwrpasol i'w anghenion ac yn cwblhau'r un asesiad crynodedol fesul modiwl.    |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| Rheolau ar gyfer Asesiadau Lluosog (*Dileer fel y bo'n briodol)                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| <div>Choose an item.</div> <p>Nid oes asesiadau lluosog ar gyfer y modiwl hwn.</p>                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| <b>Ym mha ffyrdd y bydd myfyrwyr yn cael adborth ar waith a aseswyd, gan gynnwys arholiadau ffurfiol? Dileer y datganiadau amherthnasol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai hoffech chi ychwanegu dulliau adborth fel y bo'n briodol.</b> |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |
| Turnitin                                                                                                                                                                                                                                             | <div>Choose an item.</div> <p>Adborth yn unol â'r cyfarwyddyd asesu a banc geiriau. Defnyddio'r blwch adborth ar Turnitin (gyda dewis i gael tri munud o adborth llafar fel y bo'n briodol).<br/>         Marciau i'w dychwelyd drwy Turnitin.</p> |                  |                                 |         |                                |
| <b>Rhowch fanylion darpariaeth asesu gynhwysol/gofynion arbenigol. Dylai hyn gynnwys manylion asesiadau amgen y gall myfyrwyr â gofynion penodol eu cwblhau.</b>                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                    |                  |                                 |         |                                |

Bydd yr holl ddeunyddiau addysgu ar gael ar y VLE.

Bydd yr holl daflenni, cyflwyniadau a deunyddiau cwrs ar-lein yn defnyddio lliwiau testun/cefndir cyferbynnedd uchel a ffontiau darllenadwy.

Bydd y modiwl yn archwilio gwahanol safbwyntiau yn y DU a thu hwnt ac yn datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol y myfyrwyr a'u hymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o ran ethnigrwydd, diwylliant a chenedligrwydd.

**Rhowch fanylion am sut y byddai myfyrwyr yn gwneud iawn am fethiant yn y modiwl.**  
*\*D.S. Bydd myfyrwyr Lefel 6 ar raglenni traddodiadol yn ailsefyll/ailgyflwyno yn unol â rheoliadau lefel 6*

Caiff pob myfyrwr un cyfle i wneud iawn am fethiant yn y modiwl traethawd hir.

| Gwybodaeth Arall                                                                                                                          |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                |                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| Arweinydd y Modiwl                                                                                                                        | Cyfarwyddwr y Rhaglen                                                                                       | Arholwr Allanol                                                                                                                                                                | I'w gadarnhau                       |
| Cod JACS/HECOS                                                                                                                            | Maes/Meysydd, Pwnc/Pynciau                                                                                  | Maes Pwnc (e.e. Adran)                                                                                                                                                         |                                     |
| JACS X200                                                                                                                                 | Astudiaeth o ddull archwilio a chasglu gwybodaeth gyda'r nod o wella gallu ac effeithlonrwydd dysgu unigol. | Pob sefydliad.                                                                                                                                                                 | <b>100%</b>                         |
| HECOS 100459                                                                                                                              | Astudiaethau Addysg                                                                                         | Pob sefydliad.                                                                                                                                                                 | <b>100%</b>                         |
| A oes unrhyw ragofynion neu gydofynion ar gyfer y modiwl hwn?                                                                             |                                                                                                             | Er mwyn astudio ar y modiwl, mae'n ofynnol i fyfyrwyr fod â 120 o gredydau ar Lefel 7, ac wedi pasio modiwl Sgiliau Ymchwilio ac Ymholi Uwch y rhaglen MA Addysg genedlaethol. |                                     |
|                                                                                                                                           |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                |                                     |
| Rhaglenni i'w cynnig ynddynt (heb gynnwys dyfarniadau ymadael)                                                                            |                                                                                                             | Craidd                                                                                                                                                                         | Dewis                               |
| MA (Addysg)                                                                                                                               |                                                                                                             | <input checked="" type="checkbox"/>                                                                                                                                            | <input checked="" type="checkbox"/> |
|                                                                                                                                           |                                                                                                             | <input type="checkbox"/>                                                                                                                                                       | <input type="checkbox"/>            |
|                                                                                                                                           |                                                                                                             | <input type="checkbox"/>                                                                                                                                                       | <input type="checkbox"/>            |
| Ar gyfer pa weithgareddau dysgu ac addysgu ydych chi'n bwriadu defnyddio e-ddysgu? <i>Ychwanegwch ofyniad penodol fel y bo'n briodol.</i> |                                                                                                             | Pob un                                                                                                                                                                         |                                     |
| Ar gyfer pa weithgareddau asesu ydych chi'n bwriadu defnyddio e-ddysgu? E.e. MCQs                                                         |                                                                                                             | Amherthnasol                                                                                                                                                                   |                                     |
| Uchafswm y myfyrwyr sy'n gallu cofrestru ar y modiwl?                                                                                     |                                                                                                             | 100 ym mhob sefydliad                                                                                                                                                          |                                     |
| Pa mor aml fydd y modiwl yn rhedeg yn ystod pob sesiwn?                                                                                   |                                                                                                             | Choose an item.<br>Unwaith.                                                                                                                                                    |                                     |
| Pryd? (Noder bod yn rhaid addysgu modiwlau ar raglenni nad ydynt yn broffesiynol yn gyfan gwbl yn semester 1 neu 2.)                      |                                                                                                             | Choose an item.<br>Dechrau mis Tachwedd – Canol mis Medi                                                                                                                       |                                     |
| A yw'r modiwl yn disodli modiwl sy'n bodoli eisoes?                                                                                       |                                                                                                             | Choose an item.<br>Nac ydy                                                                                                                                                     |                                     |
| Os felly, pa un?                                                                                                                          |                                                                                                             | Amherthnasol                                                                                                                                                                   |                                     |
| Dyddiad cymeradwyo gan Bwyllgor y Coleg                                                                                                   |                                                                                                             |                                                                                                                                                                                |                                     |

|                                                            |  |
|------------------------------------------------------------|--|
| <b>Llofnod Cadeirydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg</b> |  |
| <b>Addasiadau</b>                                          |  |